

## OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 No. 797

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022

### RHAN 4

#### Rheolau Sefydlog

##### Rheolau sefydlog mewn cysylltiad â gweithdrefnau

15. Yn adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(1) (dyletswydd awdurdodau perthnasol i fabwysiadu rheolau sefydlog gweithdrefnol penodol), yn is-adran (4)(a), ar ôl “below” mewnosoder “, a corporate joint committee”.

##### Gwybodaeth Cychwyn

11 Rhl. 15 mewn grym ar 15.7.2022, gweler [rhl. 1\(2\)](#)

##### Rheolau sefydlog mewn cysylltiad â chontractau

16.—(1) Rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig wneud rheolau sefydlog mewn cysylltiad â gwneud contractau gan neu ar ran y cyd-bwyllgor corfforedig ar gyfer—

- cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau;
- cyflawni gwaith.

(2) Rhaid i reolau sefydlog a wneir o dan baragraff (1) gynnwys darpariaeth i sicrhau cystadleuaeth am y contractau hynny ac ar gyfer rheoleiddio'r ffordd y gwahoddir tendrau.

(3) Caiff rheolau sefydlog a wneir o dan baragraff (1) gynnwys darpariaeth—

- yn esemptio contractau am bris sy'n is na'r hyn a bennir yn y rheolau sefydlog o'r ddarpariaeth a grybwyllir ym mharagraff (2);
- yn awdurdodi'r cyd-bwyllgor corfforedig i esemptio unrhyw gontract o'r ddarpariaeth a grybwyllir ym mharagraff (2) os yw'r cyd-bwyllgor corfforedig wedi ei fodloni bod yr esemptiad wedi ei gyfiawnhau gan amgylchiadau arbennig.

(4) Nid oes rhwymedigaeth ar berson sy'n ymrwymo i gontract gyda chyd-bwyllgor corfforedig i holi pa un a gydymffurfiodd â rheolau sefydlog y cyd-bwyllgor corfforedig sy'n gymwys i'r contract, ac nid yw unrhyw gontract yr ymrwymwyd iddo gan y cyd-bwyllgor corfforedig neu ar ei ran wedi ei annylsu oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â'r gorchmynion hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 16 mewn grym ar 15.7.2022, gweler **rhif. 1(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau  
Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022, RHAN 4.